GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Creu cymunedau iachach mewn hinsawdd sy'n newid



Cyflwyniad

Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl ar hyd a lled Cymru, fel y dangosir yn adnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd a llesiant, a bydd yr effeithiau hyn yn dwysáu wrth i'r risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd gynyddu.

Mae'r effeithiau ar iechyd yn cael eu hachosi nid yn unig gan wres, llifogydd a thywydd eithafol, ond hefyd gan y ffaith bod natur sy'n cynnal aer glân, dŵr, sicrwydd bwyd a llesiant yn dirywio ac yn cael ei cholli. Felly **dylai'r newid yn yr hinsawdd a cholli natur gael eu hystyried yn argyfwng ar y cyd i Gymru**.

Mae'r amodau y cawn ein geni ac yr ydym yn tyfu, yn byw ac yn gweithio o danynt yn llunio ein hiechyd a'n gwydnwch. Mae'r rhai sydd eisoes yn profi anfanteision yn aml yn wynebu'r risg fwyaf o'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys pobl hŷn, plant ifanc, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor, pobl ar incwm is a'r rheiny mewn tai o ansawdd gwael. Gall anghydraddoldebau sy'n bodoli gynyddu pa mor agored yr ydym i risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd, gan amlygu pwysigrwydd mynd i'r afael â hyn ochr yn ochr â mesurau addasu.

Neges Allweddol

Mae addasu i'r hinsawdd* yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd sy'n gofyn am **gamau gweithredu cydlynol ar draws pob sector**. Mae dull gweithredu ataliol mewn perthynas ag addasu yn hanfodol i leihau risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd 'nawr ac yn y dyfodol, i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ac i adeiladu cymunedau a gwasanaethau gwydn.

Dylai camau addasu ddarparu buddion a rennir ar gyfer iechyd, adfer natur, a lleoedd cydnerth, gan gydnabod bod y canlyniadau hyn yn atgyfnerthu'r naill a'r llall. Dylai'r penderfyniadau a wneir gael eu llywio gan anghenion a phrofiadau bywyd poblogaethau amrywiol i gefnogi cymunedau iach, teg a chydnerth ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Pwrpas

Mae'r briff hwn yn crynhoi'r camau allweddol a'r argymhellion sydd yn adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, A Well-adapted UK. Mae'r camau hyn yn ofynnol i greu system iechyd sy'n barod am yr hinsawdd ac a all atal risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, paratoi ar eu cyfer ac ymateb iddynt.

Er bod lliniaru effeithiau'r hinsawdd** yn parhau i fod yn hanfodol, mae'r briff hwn yn canolbwyntio ar addasu i'r hinsawdd a'r camau sy'n ofynnol i amddiffyn iechyd rhag risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd 'nawr ac yn y dyfodol.



*Addasu i'r hinsawdd: Camau i leihau bregusrwydd a gwella cydnerthedd mewn perthynas ag effeithiau presennol/ disgwyliedig yr hinsawdd. Cydnerthedd yw'r uchelgais; addasu yw'r dull.

**Lliniaru effeithiau'r hinsawdd: Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr er mwyn arafu neu atal y newid yn yr hinsawdd.

System iechyd sy'n barod am yr hinsawdd

Mae'r briff hwn yn cymhwyso argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd yng nghyd-destun Cymru ac yn eu cysylltu â pholisi Llywodraeth Cymru, y Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru, Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r briff yn nodi'r camau sy'n ofynnol i wneud y canlynol:

1. **Atal y risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, paratoi ar eu cyfer ac ymateb iddynt, fel dull gweithredu iechyd cyhoeddus.**
2. **Cynnal gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel, hygyrch wrth i risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd gynyddu.**

Mae'r briff yn nodi camau allweddol seiliedig ar dystiolaeth a'r sefydliadau sy'n gyfrifol am eu cyflawni neu am gyfrannu at hynny. Mae rhai camau eisoes ar waith, ond efallai y bydd angen adeiladu arnynt a'u cryfhau i wella cydnerthedd ledled y system. Mae hefyd yn cydnabod y gall rhai camau gael eu cryfhau o fewn dyletswyddau ac adnoddau presennol, tra bydd eraill yn gofyn am ddatblygu polisi ymhellach, mwy o fuddsoddiad, a newid ar lefel y system i amddiffyn iechyd yn ddigonol rhag risgiau cynyddol o ran yr hinsawdd. Ei nod yw cefnogi ymateb mwy integredig ar draws iechyd, addasu i'r hinsawdd, adfer natur a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Penderfynyddion iechyd ehangach: lleihau risg o ran yr hinsawdd ac anghydraddoldeb

Mae gan bob sector ran i'w chwarae wrth addasu i'r hinsawdd trwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a'r penderfyniadau a wnânt sy'n dylanwadu ar y penderfynyddion iechyd ehangach. Y penderfynyddion iechyd ehangach yw'r amodau bob dydd sy'n llunio ein cyfleoedd i fyw bywyd iach. Cânt eu galw weithiau'n flociau adeiladu iechyd am eu bod yn creu'r sylfeini yr ydym yn dibynnu arnynt i gadw'n iach. Mae'r ffactorau hyn yn bwysig am eu bod yn dylanwadu ar ein hiechyd lawer mwy na gofal iechyd yn unig.

Mae system iechyd sy'n barod am yr hinsawdd yn dibynnu ar gartrefi, lleoedd a chymunedau sy'n wydn rhag yr hinsawdd. Caiff cysylltiad pobl â risgiau'n ymwneud â'r hinsawdd a'u gwendid mewn perthynas â hynny, ynghyd â'u gallu i addasu, eu llunio gan ffactorau megis ansawdd tai, incwm, trafnidiaeth, mynediad at fannau gwyrdd a glas, gofal cymdeithasol, rhwydweithiau cymunedol, addysg, cyflogaeth a'r amgylchedd y maent yn byw ynddo. Pan fydd y blociau adeiladu hyn y wan, maent yn cyfyngu ar gyfleoedd, yn lleihau gwydnwch cymunedau, ac yn trosglwyddo anfantais o un genhedlaeth i'r nesaf.

Mae cryfhau cydnerthedd ar draws y penderfynyddion ehangach hyn yn greiddiol i leihau niwed y gellir ei osgoi ac atal pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn gyson ag uchelgais Cymru i fod yn Genedl Marmot, ni ddylai addasu i'r hinsawdd gael ei ystyried yn ddim ond ymateb i dywydd eithafol, ond yn ddull iechyd cyhoeddus ataliol sy'n cydnabod yr amodau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddynt. Dylai gweithredu ar addasu wella cydraddoldeb iechyd a chynaliadwyedd amgylcheddol, fel ei gilydd, gan helpu i greu cymunedau iachach, tecach a mwy cydnerth ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.



I bwy y mae'r briff a sut y dylid ei ddefnyddio?

Bwriedir y briff hwn ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, arweinwyr ac ymarferwyr addasu i'r hinsawdd, a hynny i gefnogi ymagwedd system gyfan at addasu i'r hinsawdd. Mae'n cydnabod y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ledled Cymru ac yn anelu at ddarparu mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, gan helpu sefydliadau a phartneriaethau i weithio gyda'i gilydd i nodi, blaenoriaethu a gweithredu camau sy'n lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd. Mae'n cyd-fynd â pharodrwydd am argyfwng a threfniadau ymateb trwy ganolbwyntio ar addasu i'r hinsawdd, atal, a meithrin cydnerthedd yn y tymor hwy.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adeiladu system iechyd sy'n barod am yr hinsawdd




Ni all un sefydliad ar ei ben ei hun reoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a cholli natur ar iechyd. Ar draws pob rôl, dylai camau gweithredu ganolbwyntio ar amddiffyn y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, lleihau anghydraddoldebau iechyd, cynnal gwasanaethau diogel a hygyrch yn ystod tywydd eithafol, cryfhau cydnerthedd natur, a defnyddio tystiolaeth iechyd cyhoeddus i lywio penderfyniadau.

Wrth gyflawni hyn, dylid adeiladu ar gyfrifoldebau a phartneriaethau presennol, gan hefyd gydnabod lle y bydd angen datblygu polisi ymhellach, mwy o fuddsoddiad, a chydlynu'r system gyfan. Caiff sefydliadau eu nodi ar gyfer pob cam gweithredu, ond bydd y broses gyflawni yn gofyn am waith partneriaeth ehangach ar draws nifer o sefydliadau, gan gynnwys y sector preifat, nad yw pob un ohonynt wedi'i restru. Mae'r sector gwirfoddol hefyd yn bartner pwysig i ymgysylltu ag ef yn gynnar er mwyn sicrhau bod lleisiau'r gymuned yn cael eu clywed.

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r camau gweithredu, y rolau a'r cyfrifoldebau ar draws y sectorau ar gyfer:

- **Cryfhau Gwydnwch Cymunedol ac Amddiffyn Iechyd y Cyhoedd**
- **Creu Lleoedd Iach sy'n Wydn rhag yr Hinsawdd**
- **Galluogi System Iechyd sy'n Barod am yr Hinsawdd**

Diagram 1. Camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer dull system gyfan i amddiffyn, meithrin gwydnwch a chefnogi cymunedau ar hyd a lled Cymru (addaswyd o CCRA4).



Cryfhau gwydnwch cymunedol ac amddiffyn iechyd y cyhoedd



Gwybodaeth briodol a hygyrch am dywydd garw

Mae darparu gwybodaeth glir, hygyrch y gellir gweithredu arni yn alluogwr effeithiol ar gyfer camau i helpu i leihau effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol ar iechyd.

Llywodraeth Cymru

- Yn unol ag uchelgais Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur newydd, pennu'r fframwaith polisi cenedlaethol a'r disgwyliadau ar gyfer parodrwydd am dywydd gawr ac addasu i'r hinsawdd.
- Arwain, tywys a chefnogi partneriaid trwy ddarparu adnoddau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu, megis Pecyn Cymorth Addasu i'r Hinsawdd Llywodraeth Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Arwain cyfathrebu cenedlaethol ynghylch yr hinsawdd ac iechyd, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.
- Darparu ymyriadau ymddygiadol a negeseuon ataliol targededig, seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer grwpiau agored i niwed.
- Gyda phartneriaid, llunio a gweithredu Cynllun Tywydd Garw ac Iechyd Cymru gyfan ar gyfer iechyd y cyhoedd, sy'n mabwysiadu elfennau addasu ac ymateb.
- Darparu arweiniad a chymorth i eraill wreiddio'r defnydd o ddull Asesiad o'r Effaith ar Iechyd statudol a gwirfoddol, i leihau anghydraddoldebau iechyd a chryfhau dulliau addasu i'r hinsawdd: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

Sefydliadau'r GIG a Gofal Sylfaenol

- Cymhwyso canllawiau a thystiolaeth tywydd garw i amddiffyn poblogaethau agored i niwed.
- Nodi a chefnogi pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf a chynnal parhad gofal yn ystod tywydd garw.

Awdurdodau Lleol a phartneriaethau

- Defnyddio canllawiau tywydd garw i gefnogi cyfathrebu a gweithgareddau allgymorth lleol i gefnogi ac amddiffyn cymunedau lleol a phoblogaethau agored i niwed.
- Gweithio gydag eraill i gefnogi gwydnwch, cynaliadwyedd a chydlyniad cymdeithasol cymunedau.





Cymorth iechyd meddwl targededig yn dilyn llifogydd

Gall llifogydd gael effeithiau hirdymor sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant. Gall therapïau sy'n canolbwyntio ar drawma gefnogi adferiad, ochr yn ochr â mesurau i leihau risg o ran yr hinsawdd, a gwella adferiad a gwydnwch cymunedol.

Llywodraeth Cymru

- Darparu cymorth i Grŵp Llywio Fforwm Llifogydd Cymru, sydd newydd ei sefydlu, i ddwyn ynghyd awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, gwasanaethau brys, cynghorau tref a chymuned, a sefydliadau cymunedol, i gefnogi cymunedau i feithrin cydnerthedd ac adfer yn dilyn llifogydd.
- Sicrhau bod strategaethau gwydnwch rhag llifogydd yn ystyried yn benodol effeithiau llifogydd ar iechyd meddwl, gan gynnwys trwy asesu a dylunio mesurau lliniaru llifogydd.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Cefnogi plant a phobl ifanc i feithrin gwydnwch rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd meddwl trwy gynyddu'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael trwy'r Ymagwedd Ysgol Gyfan at Iechyd Emosiynol, Iechyd Meddwl a Llesiant.

Y GIG, Gofal Sylfaenol, Awdurdodau Lleol a'r sector Gwirfoddol

- Darparu cymorth iechyd meddwl a llesiant integredig i bobl y mae llifogydd a digwyddiadau eraill sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn effeithio arnynt, ynghyd â mynediad at gymorth sy'n amrywio o hunangymorth a chymorth gan gymheiriaid i ymyriadau therapiwtig, gofal arbenigol a gofal argyfwng.
- Cefnogi adferiad trwy ddull system gyfan sy'n cryfhau cydnerthedd unigol a chymunedol ac yn mynd i'r afael ag effeithiau digwyddiadau cysylltiedig â'r hinsawdd ar iechyd meddwl, gan gynnwys trawma, colled, ansicrwydd, a gorbryder ynghylch yr hinsawdd.



Gwyliadwriaeth, gwybodaeth, ymchwil a gwerthuso o ran yr hinsawdd ac iechyd

Mae gwyliadwriaeth, gwybodaeth, ymchwil a gwerthuso effeithiol yn galluogi camau cynt, gwell targedu ar gyfer adnoddau, a gwell amddiffyniad ar gyfer poblogaethau agored i niwed.

Iechyd Cyhoeddus Cymru, partneriaethau academaidd ac ymchwil

- Arwain gwaith gwyliadwriaeth, gwybodaeth a gwerthuso mewn perthynas ag iechyd a'r hinsawdd ledled Cymru, gan gynhyrchu a rhannu tystiolaeth amserol am risgiau, gwendidau a chanlyniadau gofal iechyd sy'n sensitif i'r hinsawdd â phartneriaid, i gefnogi polisi iechyd cyhoeddus, trefniadau gwneud penderfyniadau a chamau addasu.
- Yn unol â'r Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur, cryfhau ymagwedd Iechyd Cyfunol at risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd trwy wella dealltwriaeth, parodrwydd a gweithredu cysylltiedig â pheryglon amgylcheddol, newid i ecosystemau, a bygythiadau newydd o ran clefydau heintus.
- Cryfhau partneriaethau ymchwil, gwerthuso a chyllido i fynd i'r afael â heriau o ran yr hinsawdd ac iechyd, gan gynnwys cydfuddion iechyd, tegwch iechyd, systemau iechyd cynaliadwy, diogelwch amgylcheddol, ac ymgysylltiad â'r gymuned.





Arweiniad a chymorth ar gyfer rhybuddion cynnar

Mae canllawiau amserol yn helpu sefydliadau i baratoi ar gyfnodau o risg uwch ac ymateb iddynt. Mae cymorth rhybuddio effeithiol yn arbennig o bwysig i amddiffyn poblogaethau agored i niwed.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Darparu gwybodaeth amserol a phriodol am y tywydd ac iechyd yn genedlaethol, yn seiliedig ar gyngor arbenigol gan sefydliadau megis y Swyddfa Dywydd, ac ystyried canllawiau a chyfathrebu gwyddor ymddygiadol cyn ac yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol.
- Darparu gwybodaeth a chanllawiau amserol mewn perthynas â chlefydau heintus a risgiau iechyd eraill y mae'r newid yn yr hinsawdd yn dylanwadu arnynt, gan gefnogi parodrwydd ac ymateb.

Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, partneriaethau rhanbarthol a lleol

- Gweithredu ar ganllawiau a chryfhau trefniadau partneriaethau lleol, gan gynnwys â Fforymau Cydnerthedd lleol a rhwydweithiau partneriaethau lleol eraill, i nodi, cyrraedd ac amddiffyn poblogaethau agored i niwed.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Creu lleoedd iach sy'n wydn rhag yr hinsawdd



Gwydnwch rhag gwres a diogelwch yn ystod gwres eithafol

Gwres yw un o'r risgiau iechyd mwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yng Nghymru. Mae amddiffyn poblogaethau rhag gwres yn gofyn am weithredu cydgysylltiedig ar bob lefel o'r system iechyd i leihau salwch, marwolaethau a phwysau ar y gwasanaethau iechyd sy'n gysylltiedig â gwres. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatrysiadau addasu sy'n cyflawni gwydnwch rhag gwres heb gynyddu allyriadau carbon.

Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Gwreiddio Cynlluniau Gweithredu Gwres-Iechyd yn y Cynllun Tywydd Gwael ac Iechyd, yn unol â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, a chefnogi gwyliadwriaeth o'r hinsawdd, i leihau effeithiau cysylltiedig â gwres ar iechyd ac amddiffyn y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol

- Gwreiddio dulliau atal iechyd cysylltiedig â risgiau o ran yr hinsawdd ym mhob polisi a ddatblygir, a sicrhau cynllunio hirdymor a chysondeb strategol mewn perthynas â chamau gweithredu'r llywodraeth ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd a llesiant. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar lefelau lleol a chenedlaethol, fel ei gilydd, trwy'r fenter Tegwch Iechyd Cymru i wreiddio'r defnydd o egwyddorion Marmot.



Sefydliadau'r GIG, Gofal Sylfaenol a Phartneriaethau Cymunedol

- Gofal sylfaenol a gwasanaethau cleifion allanol i gefnogi parodrwydd am wres, amddiffyn poblogaethau agored i niwed, a chynnal parhad gofal yn ystod digwyddiadau gwres eithafol.
- Gwreiddio gwydnwch rhag gwres ym meysydd ystadau, cynllunio a darparu gwasanaethau trwy wella dyluniad adeiladau, gwneud ôl-osodiadau carbon isel a mesurau oeri naturiol, a chamau i ddiogelu cyfarpar, cyffuriau sensitif i dymheredd, a chyflenwadau.
- Darparu mesurau oeri, hyrwyddo hydradiad a chymorth mewn lleoliadau clinigol a gofal cymdeithasol, a nodi a chefnogi pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Awdurdodau Lleol a phartneriaethau lleol

- Cymhwyso Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a fframweithiau eraill seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod effeithiau'r hinsawdd ac iechyd yn cael eu hystyried wrth lunio polisïau, gwneud penderfyniadau, cynllunio a buddsoddi.
- Datblygu mannau oer, gwyrddu trefol, cysgod, cymdogaethau wedi'u haddasu i'r hinsawdd, a lleoedd lleol cydnerth.
- Cefnogi dulliau oeri a hydradu mewn cartrefi, ysgolion a gweithleoedd.

Seilwaith gwyrdd a glas

Mae mannau gwyrdd a glas yn elfen greiddiol o atal, gan ddarparu buddion ar y cyd ar gyfer iechyd y cyhoedd, addasu i'r hinsawdd ac adfer natur trwy leihau risgiau o wres a llifogydd, cefnogi llesiant, a chreu lleoedd a chymunedau iach, cydnerth.

Llywodraeth Cymru

- Cyflawni Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur sy'n nodi'r uchelgais i hyrwyddo buddion iechyd addasu i'r hinsawdd, gan sicrhau bod yr hinsawdd a natur yn cael eu blaenoriaethu a'u cydlynu'n effeithiol fel un her gysylltiedig rhwng addasu i'r hinsawdd, adfer natur, iechyd y cyhoedd a lleoedd cydnerth.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Llywio opsiynau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwyrddu trefol cryfach, teithio llesol, cynllunio iach, a mynediad at natur a rhaglenni llesiant, sy'n lleihau cysylltiad â gwres, llifogydd a risgiau eraill sy'n ymwneud â'r hinsawdd.
- Hyrwyddo buddion natur a llesiant cymunedol, gan weithio gyda phartneriaid i leihau rhwystrau a gwella galluogwyr i sicrhau mynediad at seilwaith gwyrdd a glas.

Y GIG, Gofal Sylfaenol, Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau

- Cefnogi presgripsiynu cymdeithasol a dulliau seiliedig ar natur sy'n gwella mynediad at fannau gwyrdd a glas o ansawdd, yn lleihau cysylltiad â gwres, ac yn cefnogi llesiant.
- Gweithio gyda phartneriaid, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, i baratoi am hinsawdd sy'n newid trwy reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, hyrwyddo rheoli tir mewn modd cynaliadwy, gwella bioamrywiaeth, adfer natur, lleihau risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd a chefnogi iechyd a llesiant y cyhoedd.
- Ennyn diddordeb cymunedau yn y gwaith o gyd-ddylunio mannau gwyrdd a glas, megis systemau draenio trefol cynaliadwy, canopïau coed a datrysiadau eraill seiliedig ar natur, gan sicrhau'r buddion mwyaf i iechyd, bioamrywiaeth, gwydnwch rhag yr hinsawdd a llesiant cymunedol.



Systemau dŵr diogel

Mae seilwaith dŵr diogel yn hanfodol i ddiogelu iechyd mewn hinsawdd sy'n newid, gan leihau risgiau o lifogydd a dŵr wedi'i halogi, a chryfhau gwydnwch cymunedau a gwasanaethau.

Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru

- Sicrhau bod ansawdd dŵr a systemau draenio cynaliadwy yn cael eu rheoleiddio a'u monitro'n effeithiol, a darparu goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol ar draws y sector dŵr.

Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaethau

- Defnyddio tystiolaeth iechyd i nodi risgiau, i lywio'r broses o addasu, buddsoddi a chynllunio gwasanaethau, ac i gynnal cyflenwadau dŵr diogel a dibynadwy.
- Gweithio mewn partneriaeth i gryfhau parodrwydd am risgiau o ddŵr halogedig a digwyddiadau amgylcheddol, ynghyd â'r ymateb a'r dulliau addasu.

Gwydnwch rhag llifogydd

Mae angen diogelu cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol rhag risgiau o lifogydd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu yn ystod tywydd eithafol.

Llywodraeth Cymru, Sefydliadau'r GIG, Awdurdodau Lleol a phartneriaethau

- Cryfhau gwydnwch ysbytai a chartrefi gofal rhag risgiau llifogydd trwy barodrwydd, cynllunio a threfniadau parhad gwasanaeth effeithiol, gan gynnwys mynediad at feddyginiaeth.
- Cryfhau gwydnwch rhag llifogydd ar lefel eiddo a safleoedd, ochr yn ochr â gweithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, i fynd i'r afael â'r risg o lifogydd ar lefel y dalgylch ehangach.
- Optimeiddio polisïau cynllunio, Cynlluniau Datblygu Lleol, a thystiolaeth iechyd cyhoeddus i leihau risgiau o lifogydd yn y dyfodol, gan leihau cysylltiad ac amddiffyn poblogaethau agored i niwed.
- Cryfhau'r defnydd o ddatrysiadau seiliedig ar natur i reoli'r risg o lifogydd, cefnogi adferiad bioamrywiaeth, a meithrin gwydnwch cymunedol hirdymor.

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Galluogi system iechyd sy'n barod am yr hinsawdd



Polisi ac atebolrwydd

Dylai addasu fod yn rhan greiddiol o gynllunio, buddsoddi a gwneud penderfyniadau ar draws y sector cyhoeddus, a hynny er mwyn amddiffyn iechyd, lleihau anghydraddoldebau, a meithrin gwydnwch rhag risgiau o ran yr hinsawdd 'nawr ac yn y dyfodol.

Llywodraeth Cymru

- Cryfhau trefniadau llywodraethu, atebolrwydd, a dulliau traws-sector o addasu i'r hinsawdd ar draws meysydd iechyd, tai, cynllunio, gofal cymdeithasol a seilwaith, a hynny trwy wreiddio gwydnwch rhag yr hinsawdd a thegwch iechyd mewn polisïau a fframweithiau rheoleiddiol, gan ddefnyddio egwyddorion Iechyd Cyfunol lle bo hynny'n briodol, ac asesu, blaenoriaethu a graddio ymyriadau sy'n cyflawni'r buddion mwyaf o ran iechyd, tegwch a chynaliadwyedd ar gyfer Cymru.

Pob Sefydliad a phartneriaeth

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u haelodau ddefnyddio'r dystiolaeth o'u hasesiadau o risgiau'r newid i'r hinsawdd i lywio eu Hasesiadau o Lesiant a'u hamcanion i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed.
- Dylai sefydliadau sector cyhoeddus unigol ddefnyddio tystiolaeth o'u hasesiadau o risgiau o ran yr hinsawdd i lywio a gweithredu camau addasu ar draws sefydliadau.
- Defnyddio tystiolaeth iechyd cyhoeddus o anghydraddoldebau iechyd i lywio penderfyniadau a rhoi tegwch iechyd wrth wraidd addasu.
- Cryfhau partneriaethau, gan gynnwys trwy fenter Tegwch Iechyd Cymru, i nodi a chefnogi poblogaethau agored i niwed, gan adeiladu ar drefniadau partneriaeth presennol a gwybodaeth leol.

Cynllunio parhad busnes ac ymateb brys yn achos tywydd eithafol

Rhaid i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol allu parhau i weithredu yn ystod cyfnodau o dywydd eithafol. Mae cryfhau addasiadau yn helpu i leihau aflonyddwch ar y gwasanaeth ac yn ymateb i batrymau salwch newidiol er mwyn cynnal gofal ac adeiladu system iechyd sy'n fwy gwydn rhag yr hinsawdd.

Llywodraeth Cymru

- Darparu trefn llywodraethu, atebolrwydd, a chamau cydlynol clir ar gyfer addasu'n effeithiol i'r hinsawdd ac ymatebion brys.

Pob sefydliad a phartneriaeth

- Integreiddio dulliau addasu i'r hinsawdd i barhad busnes, parodrwydd am argyfwng a chynllunio'r gweithlu, gan gynnwys profi parodrwydd am amrywiaeth o senarios cysylltiedig â'r hinsawdd a chysoni â threfniadau'r Fforwm Cydnerthedd Lleol.

Byrddau Iechyd

- Sicrhau bod cynlluniau addasu a pharhad busnes yn mynd i'r afael â risgiau o ran y tywydd i ddiogelu iechyd, lleihau effeithiau anghydraddoldebau iechyd, a chynnal gwasanaethau hanfodol. .

Awdurdodau Lleol, Sefydliadau'r GIG, Gofal Sylfaenol a phartneriaethau

- Blaenoriaethu cymorth ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ran tywydd eithafol, a sicrhau bod mesurau addasu yn lleihau anghydraddoldebau, yn amddiffyn iechyd ac yn meithrin gwydnwch ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.



Gwydnwch y gweithlu a chymorth galwedigaethol

Mae gweithlu cydnerth yn hanfodol i gynnal gwasanaethau ac amddiffyn iechyd a llesiant staff a'r boblogaeth.

Pob Sefydliad a phartneriaeth

- Deall a mynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol ar y gweithlu trwy ymgysylltu â staff, gan sicrhau bod anghenion y rhai mwyaf agored i niwed yn cael eu diwallu.
- Hyfforddi ac arfogi staff i adnabod risgiau ac argyfyngau iechyd cysylltiedig â'r hinsawdd, ac i addasu ac ymateb iddynt yn effeithiol.
- Cryfhau gwydnwch y gweithlu trwy fynd ati mewn modd rhagweithiol i gynllunio'r gweithlu, trefniadau parhad busnes, a chymorth iechyd galwedigaethol a llesiant er mwyn rheoli pwysau sy'n deillio o dymereddau uwch a thywydd eithafol.

Datblygwyd y briff hwn i gefnogi'r gwaith o dan y rhaglen genedlaethol Iechyd a gofal cymdeithasol i daclo'r argyfwng hinsawdd.